

Gwybodaeth i artistiaid
Information for artists

Arddangos yng nghistiau Cywrain
Cyfres o arddangosfeydd sydd yn cael eu harddangos mewn cistiau gwydr yn ardal cyntedd Galeri yw Cywrain. Mae Cywrain yn arddangos gwaith gan artistiaid a chrefftwyr profiadol a newydd sydd yn hannu neu yn gweithio yn y gwledydd Celtaidd.

Cywrain exhibitions
Cywrain is a series of exhibitions situated in 2 glass cabinets located in Galeri's foyer area. Cywrain provides an opportunity for established and emerging applied artists and craft makers to exhibit their work. All artists selected are from (or work in) Celtic nations.

galericaernarfon.com

Arddangos yn y Safle Celf
Mae Safle Celf Galeri yn ofod arddangos sydd yn gweddu i brosiectau arbennig. Rydym yn annog artistiaid i ddatblygu cynnig fyddai yn cyfleu sut y byddai eu gwaith yn gwneud defnydd o'r gwagle. Mae angen cadw elfen gref o neillduoldeb y safle mewn golwg hyd yn oed mewn dethol lluniau i roi ar y wal, oherwydd hynodweddau'r ystafell. Ar gyfartaledd, rydym yn cynnal 6 arddangosfa (tua 6 wythnos o hyd yr un) pob blwyddyn, ac mae myfyrwyr Coleg Menai yn darparu arddangosfa flynyddol yn ogystal.

Mae'r uchder gosod yn 2.5m ac un wal fflat di-dor yn mesur 11m. Gyferbyn a'r wal fflat mae wal crwn, sydd wedi ei segmentu mewn israniau 1.5m o led – man perffaith i arddangos gwaith sydd mewn cyfres. Mae 65m^2 o wagle llawr yn y gofod, gyda'r man lleta yn 6.3m – sydd yn cynnig gofod i osod cerfluniau neu fewnosodiad celf. Nid oes ffenestri yn y gofod ac mae posib cael yr ystafell yn hollol dywyll ar gyfer mewnosodiad ffilm er enghraifft.

Art Space exhibitions
The Art Space in Galeri is a project based exhibition space. Artists are encouraged to develop a proposal which would indicate how their art would utilize the space. Even if the proposal is an exhibition of paintings, there needs to be a site-specific approach to the hanging of the show due to the idiosyncrasies of the space. On average, the space will host 6 exhibitions (for a period of up to 6 weeks each) per year, and there is also an annual exhibition by Coleg Menai students.

There is a hanging height of 2.5m and one continuous flat wall of 11m. The opposite wall is curved (faceted), and is split into 1.5m facets – a perfect wall to hang a series of framed work for example. There is a 65m^2 floor space with the widest point being 6.3m between both walls. The floor space can be used for freestanding, plinths or installation pieces. There are no windows within the space, therefore it can become a black box for projection / light installations for example.

Safle Celf
Art Space



Llawr: Concrid du 'matt'
Floor: Matt black concrete

Sut i Ymgeisio
Anfonwch y dogfennau/manylion isod at sylw'r Cydlynydd Celf:
1. Hyd at 6 delwedd digidol JPEG 300dpi neu dim mwy na chwech gwaith ffilm dim mwy na 3 munud o hyd yr un;
2. Datganiad dim mwy na un ochr A4;
3. Bywgraffiad dim mwy na un ochr A4.

Cyfeiriad
Cydlynydd Celf, Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SQ
Ebost: post@galericaernarfon.com
[byddai'n syniad anfon linc i lawrlwytho'r deunydd yn hytrach na atodi ar ebost]
Os hoffech sgwrs cyn ymgeisio:
01286 685 208

Dyddiad cau
Mae'r Safle Celf yn cael ei raglennu tua 18 mis ymlaen llaw. Bydd panel dethol y Safle Celf yn cyfarfod ddwy-waith y flwyddyn (Hydref ac Ebrill) i drafod syniadau/gweithiau gan artistiaid i'w harddangos yn y dyfodol. Awgrymwn eich bod yn anfon eich ceisiadau atom erbyn diwedd Medi / Mawrth i'w hystyried.

Ar gyfer arddangos yng nghistiau Cywrain – 12 mis ymlaen llaw fel rheol mae Cywrain yn cael ei raglennu.

Sut y caf wybod os ydwi'n llwyddiannus
Byddwn yn cysylltu gyda'r artistiaid llwyddiannus i drafod dyddiadau posib arddangos. Fe fydd artist yn gwybod o leiaf 12 mis ymlaen llaw gyfnod yr arddangosfa.

Argaeledd y gwaith
Mae'r panel yn cynnig arddangosfa yn seiliedig ar y gwaith a gyflwynir yn y cyfnod dethol. Mae'n rhaid felly bod y gwaith yma ar gael i'w harddangos fel rhan o'r arddangosfa orffenedig.

Amserlen gosod y gwaith yn y Safle Celf
Bydd gofyn i'r artist sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd y Safle Celf yn ystod yr wythnos yn arwain i'r noson agoriadol. Bydd yr arddangosfa angen bod yn barod i'w agor ar y dyddiad/amser a drefnir gyda'r cydlynydd celf. Bydd angen i'r artist drefnu bod y gwaith yn cael ei gasglu ar ddiwedd arddangosfa yn unol a'r cytundeb gyda'r cydlynydd celf.

Cludo y gwaith i/o Galeri
Yr artist sydd yn gyfrifol am bacio'r gwaith ac am holl gostau a threfniant cludo i ac o'r Safle Celf.

Gosod Gwaith
Cyfrifoldeb yr artist fydd gosod y gwaith. Bydd angen trefnu / cytuno gyda'r cydlynydd o Galeri pa waith sydd yn cael ei osod ym mhle ymlaen llaw.

Yswiriant
Cynghorir ymgeiswyr i yswirio unrhyw waith a anfonir i/o Galeri. Bydd Galeri yn yswirio'r gwaith yn ystod y cyfnod arddangos.

Comisiwn
Bydd comisiwn Galeri ar unrhyw werthiant yn 30% +TAW gyda'r artist yn cadw gweddill incwm y gwerthiant (cofiwch gysidro hyn pan yn prisio eich gwaith).

How to enter
Send the following to the attention of the Art Coordinator:
1. No more than 6 digitised images JPEG 300dpi or no more than 6 film or video works, no more than 3 minutes in duration (each film);
2. Artist's statement no more than one side of A4;
3. Artist's brief Biography, no more than one side of A4.

Address
Art Coordinator, Galeri, Doc Victoria, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SQ
Email: post@galericaernarfon.com
[we recommend using a file-sharing website to send large attachments]
Call us for a chat: 01286 685 208

Closing date for entries
The Art Space is programmed 18 months in advance. The selection panel meet twice a year (October and April) to discuss work to be exhibited. We suggest that you send your proposals to us before the end of September / March respectively to be considered for an exhibition.

Cywrain exhibitions are programmed 12 months in advance.

Notification of outcome
We will contact successful artists to discuss exhibition dates. We shall do so leaving a minimum 12 month notice ahead of the exhibition period.

Availability of the work
The selection panel chose exhibitions/artists to exhibit based on the proposal images/ ideas. This work should therefore be part of the final exhibition in the Art Space.

Delivery and collection of works
Artists are required to deliver their works to Galeri during the week prior to the exhibition dates. The exhibition must be prepared and ready for opening as discussed/ arranged with the art coordinator. The artist must arrange the collection of the work in accordance with the pre-arranged date as stated in the contract.

Transport of works
The artist is responsible for the packaging and all related costs of transporting the works to and from Galeri.

Installing the work
It is the responsibility of the artist to hang the work for themselves. The art coordinator will advise as to the layout/ design of the exhibition.

Insurance
Artists must insure their work in transit. Galeri will insure the work once it is in place.

Commission
Galeri's commission on any sales will be 30% +VAT of the sale price. The artist will retain the remainder of the sale price (please consider this when pricing the work).

Dylunio/Design: elfen.co.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

galeri caernarfon

Safle Celf
Art Space

Cynllun Casglu
Collectorplan

twitter.com/_galeri_
facebook.com/galericaernarfon

galericaernarfon.com

Galeri, Doc Victoria,
Caernarfon, Gwynedd
LL55 1SQ

Swyddfa Docynnau/Box Office
01286 685 222
post@galericaernarfon.com